Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 7fed o Ragfyr 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol : Y Cyng. Colin Jenkins (Cadeirydd), y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. David Williams, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Christopher Parish
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Maer, y Cyng. Julia Jones, Y Dirprwy Faer, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Fran Murphy

Cof 232/ Rhag / 11 Cyfrifon i'w Talu

Kimbolton Fireworks (Addangosfa Gyhoeddus)	£	4,500.00
Un Llais Cymru (Cyrsiau Hyfforddi)	£	75.00
Nice Price News (DD 305 ynglŷn â Tân Gwyllt)	£	60.00
Nice Price News (DD 307 ynglŷn â Goleuadau'r Nadolig)	£	60.00
W.Kingsbury Ltd	£	5.40
Gary Ash (DD 304 ynglŷn â Tân Gwyllt)	£	70.00
CGGC (Gwein. mis Tachwedd)	£	24.30
Des Davies (petrol i'r generadur – Tân Gwyllt)	£	10.04
Geoffrey Williams (cofrestru gyda Croeso i Gerddwyr)	£	30.00

Argymhellwyd bod pob un o'r uchod yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 233/ Rhag /11. I ystyried Cyllideb y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn 2012-13
Fe wnaeth y Pwyllgor archwilio pob agwedd o incwm a gwariant y Cyngor.
Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gefnogi'r digwyddiadau cymunedol mae'n eu noddi, wrth gadw rheolaeth lem ar ei wariant.
Penderfynodd y pwyllgor i argymell cynnydd yng nghyllideb goleuadau'r Nadolig, o £5,000 i £8,000, i amnewid a darparu rhai goleuadau ychwanegol. Gobeithir bydd hyn yn denu mwy o ymwelwyr i'r Dref.
Argymhellwyd £500 ychwanegol ar gyfer digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan, i gynnwys arian i ddathlu Jiwbilî'r Frenhines.
Yn unol â'r grantiau newydd sydd ar gael ar gyfer prosiectau Treftadaeth a Thirwedd, argymhellodd y Pwyllgor bod £1,000 ar gael i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer cais a fydd yn cael ei wneud gan y Cyngor.

Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy bod y Cyngor yn argymell cynnydd yn y gyllideb o 2%, byddai hyn yn golygu cyllideb ar gyfer y flwyddyn 2012-13 o £50,086 ac eiliwyd gan y Cyng. David Williams. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15yh.